
# Rhoi Cyfarwyddiadau

**Pwrpas:**
Dweud wrth rywun sut i wneud rhywbeth yn y modd cliriaf posibl



**Cyd-destunau posib:**
- Creu arteffact mewn dylunio a thechnoleg
- Sut i ddefnyddio cyfrifiadur mewn TGCh
- Sut i gynnal ymchwiliad mewn gwyddoniaeth
- Disgrifio gŵyl Iddewig mewn addysg grefyddol
- Sut i chwarae pêl-droed neu gemau eraill
- Disgrifio gweithdrefnau mewn mathemateg
- Rhoi cyfarwyddiadau wrth chwarae rôl

**Dulliau o baratoi/cynllunio:**
- Athro/athrawes yn modelu cyfres o gyfarwyddiadau fel tasg ysgrifennu ar y cyd
- Dysgwyr yn cael profiad uniongyrchol o'r broses dan sylw
- Dysgwyr yn llunio nodiadau ar ffurf siart llif neu linell amser sy'n dangos y camau angenrheidiol
- Dysgwyr yn gwneud penderfyniadau

**Cynulleidfa:**
Rhywun sydd am wneud rhywbeth yn y modd cliriaf posibl

**Nodweddion ieithyddol nodweddiadol:**
- Iaith syml, glir, ffurfiol
- Ffurf orchmynnol y ferf
- Cysyllteiriau amser neu rifau er mwyn bod yn gydlynol

**Strwythur nodweddiadol:**
- Trefn gronolegol, gaeth
- Yn aml ar ffurf rhestr
- Yn aml yn defnyddio diagramau

**Meini Prawf Llwyddiant:**
- Ydy'r camau i gyd yn glir?
- A restrwyd yr holl eitemau neu gynhwysion?
- Oes unrhyw ran o'r dilyniant heb ei chynnwys?
- Oes digon o wybodaeth fanwl?
- Ydy'r iaith yn briodol ar gyfer y gynulleidfa?
- All rhywun arall gwblhau'r dasg yn llwyddiannus?

Datblygwyd gan Lisa Hearne a Mari Owen o Sgerbydau Sue Palmer a 'Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm' (LICC; Mawrth 2010)

# Enghreifftiau o destun rhoi cyfarwyddiadau

Yn dangos sut i …

Y defnyddiau/rhestr o'r offer sydd eu hangen (manylion penodol)

Dilyniant clir wedi'i nodi trwy bwyntiau bwled/ llythrennau/rhifau wedi'i ysgrifennu mewn trefn gronolegol

Amser presennol

Ffurf orchmynnol y ferf – geiriau awdurdodol


Pwyntiau/brawddegau cryno

Cysyllteiriau sy'n gysylltiedig ag amser:

**Yn gyntaf …** **Yn ail …**
**Nesaf …** **Ar ôl hynny …**
**Yn y cyfamser …**
**Tra …** **Yn …**
**Erbyn …** **Nesaf at …**

**Y daith o Ddolgellau i Lyn Celyn**

1. Teithiwch o Ddolgellau ar yr A470 am 0.7 milltir tua'r A494.
2. Cymerwch y troad cyntaf ar y dde i'r A494.
3. Arhoswch ar yr A494 am 17 milltir.
4. Trowch i'r chwith ar yr A4212.
5. Ar ôl teithio ar yr A4212 am 5 milltir, byddwch yn cyrraedd Llyn Celyn.




**Meini prawf llwyddiant**

- Ydy'r cyfarwyddiadau'n glir?
- Ydy'r cyfarwyddiadau mewn trefn?
- A ddefnyddiwyd pwyntiau bwled, lluniau neu ddiagramau i wneud y cyfarwyddiadau'n glir?
- A ddefnyddiwyd ffurf orchmynnol y ferf, sy'n dweud wrthych am wneud pethau, e.e. golchwch, ychwanegwch, arllwyswch?